**Cyngor Partneriaeth Cymru – 7 Gorffennaf 2025 –
Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Banel Strategaeth Hinsawdd
Llywodraeth Leol**

## Diben

I nodi:

- Cynnydd a'r camau nesaf ar gyfer y Panel Strategaeth Hinsawdd, wedi'i gefnogi gan Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC;

- Cynnydd yn erbyn 'trywydd y sector cyhoeddus tuag at sero net'[1];

- Y cynnydd yn erbyn ymrwymiadau llywodraeth leol yng nghynllun lleihau carbon 'Cymru Sero Net' ar gyfer Cyllideb Garbon 2 ar gyfer 2021-25 (gweler Atodiad 1) – ym meysydd lliniaru caffael, cludiant, adeiladau a defnydd tir, ochr yn ochr ag addasu;

- Y cynnydd o ran datblygu ymrwymiadau addasu;

- Edrych ymlaen o ran y cymorth fydd ei angen ar gynghorau yn ystod Cyllideb Garbon 3 (2026-30).

## Y prif bwyntiau i'w hystyried

- Mae pob un o bum grŵp tasg a gorffen Panel Strategaeth yr Hinsawdd (y pedwar maes lliniaru sy'n mynd i'r afael ag ymrwymiadau Cymru Sero Net yn ogystal ag addasu) wedi gwneud cynnydd da wedi'i gefnogi gan Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC o ran gyrru ymgysylltiad cynyddol a chamau gweithredu gan gynghorau.

- Mae datblygu'r Cynllunydd Senario Sero Net yn ychwanegiad pwysig i hysbysu polisi a phenderfyniadau gwario ar ddatgarboneiddio adeiladau, tra'n mynd i'r afael â'r angen i reoli graddfa a chost yr her.

- Mae cynnig pwrpasol newydd o ran cefnogaeth i awdurdodau lleol gan Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC ar fin cael ei lansio i wella a theilwra cefnogaeth gyda chynnydd tuag at yr ymrwymiadau lliniaru ac addasu sero net ymhellach.

- Nid yw'r cynnydd tuag at ymrwymiadau sero net yn unffurf a chanolbwyntir o hyd ar fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael a rhannu arfer da.

- Mae angen i berchnogaeth gyrru'r agenda sero net fod yn un ar lefel uwch, corfforaethol ac wedi ei wreiddio ar draws yr holl wasanaethau, ac nid yn gyfrifoldeb un swyddog yn unig.

---

[1] Statws carbon sero net erbyn 2030: Y trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae'r trywydd yn pennu tri cham sy'n nodi lle y dylai cyrff cyhoeddus anelu i fod ar bob cam: 'gwasgu'r sbardun' (2021-2022); 'cryn bellter ar hyd y daith' (2022-2026); a 'cyrraedd ein nod' (2026-2030).

- Mae'r fethodoleg gyfredol ar gyfer adrodd yn flynyddol ar ddatblygiad sero net y sector cyhoeddus yn galluogi dadansoddiad 'pwynt mewn amser' yn unig ac nid cymhariaeth 'flwyddyn ar ôl blwyddyn' a fyddai o fudd i fecanweithiau adrodd cynghorau.

**Argymhellion**

- Mae Cyngor Partneriaeth Cymru yn nodi'r pwyntiau allweddol hyn a'r cynnydd.

- Mae aelodau'r cyngor yn cefnogi'r gwaith hwn o fewn eu sefydliadau ac ar draws rhwydweithiau, gan gyflymu gweledEdd, y nifer sy'n manteisio ar hyn a chynnydd.

**Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Panel Strategaeth Hinsawdd (PSH)**

2. Bu'r Panel Strategaeth Hinsawdd, sy'n dod â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (sydd hefyd yn cadeirio'r grwpiau Tasg a Gorffen), Cyfoeth Naturiol Cymru, Parciau Cenedlaethol ac uwch swyddogion LlC ynghyd, yn cyfarfod ar 22 Mai 2025. Mae'r grŵp yn parhau i roi cyfeiriad strategol, gan gynnwys edrych ar yr ymrwymiadau addasu, Cynlluniau Ynni Ardal Leol a'r camau nesaf ar gyngor a'r llwybrau tuag at sero net 2050 Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Hefyd trafododd y Panel Strategaeth Hinsawdd gyfrif o Gyllideb Garbon 2 (gweler adran 7).

**Cynnydd grwpiau Tasg a Gorffen y Panel Strategaeth Hinsawdd**

3. Mae pob grŵp tasg a gorffen yn adrodd i'r Panel Strategaeth Hinsawdd ar gynnydd yn erbyn eu hymrwymiadau Cymru Sero Net perthnasol. Ceir crynodeb o'r cynnydd isod.

**Y cynnydd yn erbyn ymrwymiadau llywodraeth leol**

**(a) Y Cynnydd o ran Datgarboneiddio Caffael:**

- Cwblhau'r canllawiau ar ddefnyddio cynlluniau lleihau carbon gyda Miller Research.
- Trafod canllawiau drafft ar ddatgarboneiddio gofal cymdeithasol drwy'r gadwyn gyflenwi (hefyd gan Miller Research) gyda Grŵp Prosiect Argyfwng Hinsawdd Gofal Cymdeithasol LlC.
- Ystyried 'Trywydd Awdurdod Lleol ar gyfer 2025' ar y cyd ar gyfer lleihau allyriadau cwmpas 3 a gwella adrodd haen 2. Byddai hyn yn cynnwys cyd-fynd â gwasanaethau lleihau carbon Busnes Cymru.
- *Mewn perthynas â'r trywydd (sector cyhoeddus), mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae angen rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg ymhlith yr anghenion 'cryn bellter ar y daith' cyn bod modd i Gynghorau honni eu bod yn 'cyrraedd ein nod'.*

## (b) Proses Ddatgarboneiddio Cludiant:

- Datblygu papur dysgu ar y cyd i gasglu profiadau, rhannu gwersi a helpu i gyflymu newid ar draws yr holl gynghorau.
- Dyfeisio gweminar i gefnogi cynghorau gyda'r themâu allweddol a nodwyd yn y papur dysgu a rennir.
- Gwrando ar astudiaeth achos CBS Merthyr Tudful yn ymwneud â phrynu cerbydau trydan ar gost tebyg i gerbydau petrol / diesel a rhannu'r astudiaeth achos.
- Cyd-fynd â datblygiadau LlC trwy'r Gwasanaeth Ynni a'r Gwasanaethau Caffael Masnachol a rhannu'r datblygiadau hynny, gan gynnwys alinio'r grŵp Tasg a Gorffen hwn gyda'r Grŵp Rheolwyr Fflyd.
- *Mewn perthynas â'r trywydd, mae cynnydd da wedi ei wneud, ond mae cynnydd nawr yn dibynnu, i raddau, ar fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael, mabwysiadu dysgu o bob cwr o Gymru a thrawsnewid cyflymach. Nodwyd hefyd fod yna ystod o weithgareddau rhyng-gysylltiol a chyfleoedd yn digwydd ar draws y sector cyhoeddus sydd angen gwell cydgysylltu e.e. prynu cerbydau trydan ar y cyd, rhannu isadeiledd gwefru cerbydau trydan a chael cyfraddau corfforaethol is ar gyfer trydan (adnewyddadwy).*

## (c) Proses Ddatgarboneiddio Adeiladau:

- Mae'r Cynllunydd Senario Sero Net wedi ei lansio [2], ac mae pob cyngor wedi derbyn ei Gynlluniwr wedi ei bersonoli a'i ganllaw defnyddiwr ar gyfer cael at yr adnodd hwn i lywio penderfyniadau strategol yn ymwneud â'r dewisiadau o ran datgarboneiddio adeiladau. Mae'r Rhaglen Gefnogi newid Hinsawdd yn cefnogi cynghorau i gael at y Cynllunydd a darparu adborth cychwynnol.
- Mae'r Rhaglen Gefnogi Newid Hinsawdd yn gweithio ar naratif gyda'r grŵp Tasg a Gorffen Adeiladau i gyd-fynd ag adroddiad cenedlaethol y Bartneriaeth Leol ar y data lleol a gasglwyd. Bydd y naratif hwn yn egluro'r prif gostau (mesurau sero net) a'r costau eilaidd (gwaith ychwanegol ar yr adeiladau) yn ogystal â manteision ehangach datgarboneiddio adeiladau e.e. iechyd a'r economi. Y nod yw i ddarparu darlun cynhwysfawr i Lywodraeth Cymru i lywio polisi ac adolygiadau gwariant a chynnal ymgysylltiad cynghorau mewn datgarboneiddio adeiladau gan fod y prif ffigwr (y prif gostau) ar gyfer yr ystâd llywodraeth leol yng Nghymru dros £2 biliwn, a bydd y ffigwr hwn yn sylweddol uwch gyda chostau eilaidd.
- Cam nesaf y gwaith hwn yw i lunio ymagwedd strategol ar gyfer datgarboneiddio adeiladau llywodraeth leol ochr yn ochr â nodi cyfleoedd caffael ar y cyd ar gyfer y mesurau yn y Cynllunydd: pympiau gwres, inswleiddio ac ynni adnewyddadwy.
- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar raglenni cefnogi LlC gan gynnwys y Grant Gwres Carbon Isel a gwaith Ystadau Cymru.
- *Mewn perthynas â'r trywydd, bydd argaeledd y Cynllunydd, yn ogystal â'r gwaith a adroddwyd yn flaenorol gan Miller Research, yn galluogi gwaith i fynd rhagddo*

---

[2] Cynllunydd Senario Sero Net - CLlLC

*ar yr ymagwedd strategol. Tra bod rhai ardaloedd/adeiladau wedi mynd 'cryn bellter ar hyd y daith', wedi eu cefnogi gan raglenni Grant Gwres Carbon Isel a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy LlC, mae graddfa'r gwaith sydd ei angen yn helaeth o'i gymharu â'r cyllid sydd ar gael os ydym i 'gyrraedd ein nod'.*

### (d) Cynnydd Datgarboneiddio defnydd tir:

- Daeth 166 o gynrychiolwyr (swyddogion ac aelodau etholedig) i'r seminarau hyfforddi Rheoli Carbon Tir a'r sesiynau arddangos Hyfforddiant Derbyn Defnyddiwr ar yr Adnodd Mapio Digidol Defnydd Tir yn chwarter 4 2024-25, mewn partneriaeth â Netherwood Sustainable Futures, Costain a MapDataCymru.
- Yn dilyn y sesiynau hyn, bydd swyddogaethau technegol yr Adnodd Mapio Digidol yn cael eu datblygu ymhellach gyda'r adborth yn cael ei gasglu, a bydd y Canllawiau Defnydd Tir [3]yn cael ei adnewyddu gydag ystod o astudiaethau achos yn cael eu hamlygu.
- Gan fod cynnydd da wedi ei wneud gyda phob un o'r ymrwymiadau Defnydd Tir, a thra bod cynhyrchu Cyllideb Garbon 3 yn mynd rhagddo, mae cyfarfodydd y grŵp Tasg a Gorffen hwn yn cael seibiant am y tro.
- Mewn perthynas â'r trywydd, tra bod angen i hyn gael ei wreiddio yn y cynghorau cyn y gellir honni ein bod 'gryn bellter ar ein taith', mae'r sylfeini wedi'u gosod.

### (e) Cynnydd o ran Addasu:

- Mae ymrwymiadau addasu drafft ar gyfer Awdurdodau Lleol wedi eu datblygu gan y grŵp a chawsant eu cyflwyno i'r Panel Strategaeth Hinsawdd ym Mai ar gyfer mewnbwn. Mae'r rhain yn ymdrin â phum prif faes: Arweinyddiaeth, Cydweithio, Gwytnwch Gwasanaeth, Gwytnwch Cymunedol a Chynllunio Rhag Argyfwng. Bydd y Grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd yn cael safbwyntiau ac adborth pellach ym mis Mehefin cyn y bydd yr ymrwymiadau drafft terfynol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Gweithredol CLlLC ym mis Gorffennaf fel y gall Arweinwyr Awdurdod Lleol eu trafod a chytuno arnynt.

### Grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd

4. Mae Rhaglen Gefnogi Newid Hinsawdd CLlLC wedi hwyluso dwy sesiwn ar gyfer y grŵp, gyda LlC a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, ar adrodd ar sero net y sector cyhoeddus yn flynyddol, gan gynnwys ar y dangosfwrdd rhyngweithiol newydd. Mae'r grŵp hwn yn cynnig cyfle i swyddogion llywodraeth leol (ac aelodau cyswllt CLlLC) i fod yn rhan o ddatblygiadau newydd LlC a darparu adborth.

[3] Canllawiau ac Adnodd Defnydd Tir ac Atafaelu Carbon CLlLC - CLlLC

**Sesiynau Sbotolau Hinsawdd CLlLC**

5. Ym mis Mai fe gyflwynwyd y 'Sesiwn Sbotolau Hinsawdd' ddiweddaraf ar destun pwysigrwydd economi gylchol i ddarparu nodau sero net mewn partneriaeth â LlC. Ers cyflwyno'r sesiynau rhagarweiniol hyn yn Ionawr 2025, i glywed am faes ymarfer, rhannu dysg a hybu trafodaeth, mae dros 250 o gynrychiolwyr (yn cynnwys swyddogion ac aelodau etholedig) wedi ymgysylltu. Mae ymdrech i ddod o hyd i destunau a siaradwyr ar gyfer y dyfodol er mwyn adeiladu ar y dechrau calonogol hwn.

**Gwaith trawsbynciol a chefnogaeth bwrpasol i awdurdodau lleol**

6. Mae'r cynnydd i adrodd ar waith ehangach wedi bod fel a ganlyn:

- Mae'r Canllawiau Carbon a Bioamrywiaeth ar fethodoleg achos busnes yn cyrraedd diwedd ei gyfnod prawf gyda Chyngor Sir Ddinbych. Mae'r canllawiau hyn wedi symleiddio gwaith cynharach Uchelgais Gogledd Cymru ar leihau allyriadau a chefnogi bioamrywiaeth gyda phrosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru. Mae cynllun cyfathrebu wedi ei baratoi ar gyfer cyflwyno'r canllawiau fesul tipyn o gyfnod yr haf.

- O 2025-26, bydd Rhaglen Gefnogi Newid Hinsawdd CLlLC yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i Awdurdodau Lleol yn lle adnewyddu'r fframwaith o ymgynghorwyr. Mae'r ymagwedd hon wedi ei ffafrio i yrru mentrau lleol yn well a gwreiddio arferion lliniaru ac addasu o fewn cynghorau. Mae'r deunyddiau a chyfathrebu yn cael eu cwblhau i gyhoeddi'r cynnig newydd hwn i Brif Weithredwyr, Aelodau Cabinet a'r Grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd o ddiwedd Mehefin.

**Gweithio tuag at uchelgais sero net 2030 y sector cyhoeddus a Chyllideb Garbon 3**

7. Wrth gyfrif eitem Cyllideb Garbon 2 yng nghyfarfod y Panel Strategaeth Hinsawdd ym mis Mai, fe amlygodd y Prif Weithredwyr a chadeiryddion y grwpiau Tasg a Gorffen ei bod yn bwysig fod y Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Gefnogi Newid Hinsawdd CLlLC yn cadw sero net yn flaenoriaeth a gwella ei welededd a'r broses o wneud penderfyniadau o fewn eu hawdurdodau. Roedd y grŵp yn teimlo y gellid cael 'ôl-troed mwy' (cyrhaeddiad ehangach) ar gyfer y gwaith sero net hwn drwy fwy o waith rhanbarthol.

8. Ym mhob un o'r meysydd gwaith hyn felly mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn yr ymrwymiadau sero net a thrywydd y sector cyhoeddus. Bydd gwneud cynnydd pellach yn parhau i fod yn her o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu pob Cyngor. Fodd bynnag, gallai rhai o'r mesurau arbed arian a/neu gynhyrchu incwm dros eu cyfnod, yn ogystal â chyfleoedd drwy waith caffael ar y cyd, hyfforddiant a datblygu sgiliau 'gwyrdd', ac mae'r rhain yn negeseuon allweddol i awdurdodau lleol sy'n parhau drwy'r rhaglen hon.

## ATODIAD 1 – ymrwymiadau Llywodraeth Leol

Mae'r ymrwymiadau y mae llywodraeth leol wedi'u gwneud ac sydd wedi'u cynnwys yng Nghymru Sero Net i'w gweld yn y tabl isod.

| **Ymrwymiadau Llywodraeth Leol Cymru Sero Net** |
|---|
| **Adeiladau**<br>• Datblygu a chyflawni cynllun strategol ar gyfer datgarboneiddio ystâd awdurdodau lleol.<br><br>Ystadau Cymru fel arweinydd strategol:<br>• Cynllun strategol ar gyfer datgarboneiddio adeiladau erbyn diwedd 2023.<br>• Pob adeilad cyhoeddus i gael gwres carbon isel erbyn 2030.<br>• Pob adeilad sector cyhoeddus newydd yn cael eu hadeiladu i safon sero net. |
| **Caffael**<br><br>• Datblygu dealltwriaeth o broffil allyriadau'r holl nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael erbyn diwedd 2022.<br>• Manylebau lleihau carbon ym mhob contract newydd neu gontractau wedi eu hadolygu.<br>• Canolbwyntio ar nifer o gontractau blaenoriaeth a rhannu dysgu yn ymwneud â datgarboneiddio ar draws Awdurdodau Lleol erbyn diwedd 2022 – i ddatblygu dull datgarboneiddio i'w gymhwyso i bob contract erbyn 2023. |
| **Symudedd a Thrafnidiaeth**<br><br>• Adeiladu ar adolygiadau fflyd a datblygu cynlluniau ar gyfer trawsnewid fflyd, gan gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, pob car newydd a cherbydau nwyddau ysgafn yn gerbydau allyriadau isel iawn erbyn 2025, lleihau ôl troed carbon bysiau, tacsis a cherbydau llogi preifat i sero erbyn 2030.<br>• Adolygiad o'r fflyd lwyd i'w gwblhau erbyn diwedd 2022 (gan weithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru).<br>• Cefnogi gweithio o bell lle bo modd, gartref neu mewn canolfannau. Annog teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. |
| **Defnydd Tir**<br><br>• Mapio daliadau tir awdurdodau lleol erbyn Ebrill 2022 i nodi mathau o dir a'u potensial ar gyfer atafaelu carbon, ynni adnewyddadwy a rheoli llifogydd.<br>• Atafaelu carbon yn cael ei ystyried fel pwrpas craidd ar gyfer tir cyhoeddus gan arweinwyr.<br>• Datblygu rhaglen hyfforddi a phrentisiaeth 5 mlynedd ac adfer mawndiroedd i gefnogi'r gadwyn gyflenwi. |

## Addasu

Mae'r grŵp tasg a gorffen addasu, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024, drwy ganolbwyntio ar bedwar maes:

1. Partneriaeth a Chydweithio
2. Gwytnwch Gwasanaeth
3. Gwytnwch Cymunedol
4. Arweinyddiaeth